

Y CAM MAWR



Briff yr Ymgyrch

Pam ydym yn ymgyrchu ar danwydd ffosil?

Tapiau casét. Rhyngrwyd deialu. Ceir tair olwyn. Dyma ambell beth sydd wedi mynd mor hynafol fyddai neb yn ystyried buddsoddi ynddynt mwyach. Bydd echdynnu a llosgi tanwydd ffosil (glo, olew a nwy) yn codi i ben y rhestr yn fuan oherwydd gwyddom i'r dim eu bod yn anghynladwy. Maent yn andwyo ein daear, ac mae eu llosgi yn cyflymu'r broses o gynhesu ein byd.

Mae'r camu tuag at ynni cynaliadwy eisoes ar waith, ond mae angen inni gyflymu. Mae'r cyfle gennym i ymuno yng ngwaith Duw o adnewyddu'r greadigaeth, a rhyddhau miliynau o bobl dlotaf y byd sydd eisoes yn dioddef effaith newid hinsawdd trwy gamu oddi wrth danwydd ffosil. Gallwn wneud hyn trwy uno ein harian a'n gweithredoedd efo'n gweddiau a galw am ynni amgen a glân, ac am ddyfodol gwell i'r ddyndoliaeth i gyd.

Mae'n amser troi cefn ar danwydd ffosil a symud tuag at ddyfodol tecach a disgleiriach.

Be ofynnwn ni amdano?

Mae angen inni droi cefn ar bob tanwydd ffosil, ac rydym yn cychwyn efo glo. Glo ydi'r ffynhonnell unigol fwyaf o lygredd CO2 yn fyd-eang ac yng ngwledydd Prydain.

Rydym am i Lywodraeth Prydain wneud ymrwymiad clir i gamu'n llwyr oddi wrth losgi glo yn y DG – erbyn 2023 – ynghyd a chyhoeddi cynllun cadarn fydd yn rhoi sicrwydd digonol i ddiwydiant a buddsoddwyr.

Rhaid iddi weithio efo'r Adran Fusnes i sicrhau nad yw Cyllid Allforio'r DG bellach yn cefnogi unrhyw fath o echdyniad glo dramor, fel ffordd o ddangos arweiniad byd-eang.

Rydym yn gobeithio y bydd unrhyw gyllid gaiff ei arbed trwy gamau felly yn cael ei ail-fuddsoddi mewn ffyrdd fydd yn ein helpu i greu swyddi gwyrdd newydd ac economi carbon-isel yn fyd-eang.

Be allwch chi ei wneud?

Yn gyntaf, o fis Medi ymlaen lawr lwythwch ac argraffwch daflen ddeiseb Cymorth Cristnogol o christianaid.org.uk/climate-resources. Gofynnwch i'ch ffrindiau a'ch eglwys i arwyddo'r ddeiseb, sydd yn gofyn i'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd gymryd penderfyniad cadarn i gamu oddi wrth lo yn y DG ar frys.

Yn ail, o fis Hydref ymlaen trefnwch sesiwn ysgrifennu llythyr yn eich eglwys ac anfonwch air at eich AS. Gofynnwch iddynt ymuno efo ni i ofyn i'r Adran Ynni i gymryd penderfyniad cadarn i gamu'n llwyr oddi wrth lo yn y DG ar frys, ac i gynnig arweiniad byd-eang yn yr un modd. Gallwch lawr lwytho awgrymiadau ar sut i ysgrifennu llythyr ar ein tudalen ymgyrchu: christianaid.org.uk/climate-resources

Yn olaf, (am nawr!), yn y cyfnod sy'n arwain at y trafodaethau newid hinsawdd yn Paris y gaeaf hwn, gwahoddwn ni chi i ymuno efo ni a miloedd eraill ar y **29 Tachwedd ar gyfer Gorymdaith y Bobl am gyfiawnder hinsawdd** yma yn y DG. Byddwn yn dangos fod pobl gyffredin ar y blaen i'r llywodraethau yn ein dyhead am weithredu ystyrlon, teg i fynd i'r afael a newid hinsawdd, ac i roi pwysau ar arweinwyr y byd wrth iddynt ymrwymo i fynd i'r afael a newid hinsawdd.